



## **Polisi Parcio Preswylwyr Cyngor Dinas Casnewydd**

### 1. Diben

- 1.1 Prif ddiben y briffordd yw ar gyfer symud traffig ac felly nid oes gan unrhyw gerbyd hawl awtomatig i barcio ar briffordd gyhoeddus. Derbynnir parcio lle nad yw'n effeithio ar symudiad traffig, yn creu perygl i ddiogelwch, yn rhwystro mynediad i gerbydau argyfwng, neu'n rhwystro mynediad i eiddo. Er nad yw darparu manau parcio yn ddyletswydd statudol i'r Cyngor, mae cynlluniau parcio preswylwyr wedi'u rhoi ar waith mewn ardaloedd pan fo pwysau ar barcio i breswylwyr oherwydd parcio gan fusnesau neu rai eraill nad ydynt yn breswylwyr ac sydd felly'n cynnig y cyfle gorau i barcio.
- 1.2 Bwriad cynlluniau parcio i breswylwyr yn unig yw cadw cyfran o ofod y ffordd ar gyfer preswylwyr a'u hymwelwyr yn unig, pan fo pobl nad ydynt yn breswylwyr yn parcio yn y stryd heb adael llawer o le.

Nid yw cynlluniau parcio i breswylwyr yn unig yn effeithiol ac ni fyddant yn cael eu cyflwyno lle nad oes llawer o alw allanol ond byddant yn cael eu cyflwyno os oes mwy o geir gan breswylwyr na nifer y manau parcio sydd ar gael. Mae cynlluniau parcio preswylwyr yn helpu i reoli manau parcio cyfyngedig – nid ydynt yn creu manau parcio ychwanegol ac nid ydynt yn gwarantu lle i unrhyw breswyllydd y tu allan i'w eiddo.

- 1.3 Cyn gwneud cais, gofynnir i breswylwyr ystyried a yw problemau parcio yn rhai dros dro ac felly nid oes angen cynllun parcio preswylwyr newydd arnynt, e.e. a yw problemau parcio'n digwydd dim ond yn ystod amseroedd gollwng / casglu plant ysgol, pan wneir danfoniadau, neu wrth fynd i'r siopau. Mae manteision ac anfanteision i gyflwyno cynlluniau parcio newydd i breswylwyr yn unig:

#### Manteision

- Annog cymudwyr/siopwyr i beidio â pharcio mewn strydoedd preswyl;
- Gwell amgylchedd mewn ardaloedd preswyl;
- Mae preswylwyr yn cael parcio ar y stryd yn haws ac yn fwy cyfleus;

- Gall wella parcio a rheoli traffig;
- Gall wella'r ffordd y rheolir parcio o ddatblygiadau newydd;
- Gall arwain at fanteision diogelwch ar y ffordd.

#### Anfanteision

- Gall achosi cymudwyr/siopwyr i barcio'n rhywle arall;
- Costau cyflwyno a rheoli'r cynlluniau a'r trwyddedau ar eu cyfer;
- Nid yw trwyddedau'n gwarantu man parcio;
- Gall cynlluniau ddim ond rheoli'r diffyg manau parcio ac nid datrys problemau parcio;
- Mae risgiau y gallai cynllun leihau nifer y manau parcio ar y stryd, gan greu problemau i ymwelwyr a busnesau;
- Gall leihau llif/diogelwch traffig wrth i yrwyr cerbydau chwilio am lai o fannau y caniateir parcio ynddynt;
- Gall arwain at ddefnydd aneffeithlon o fannau parcio ar y stryd.

## 2. Meini Prawf

### 2.1 Meini prawf ar gyfer asesiad cychwynnol

Bydd ceisiadau a dderbynnir ar gyfer cynlluniau parcio preswylwyr newydd yn unig yn cael asesiad cam cyntaf i benderfynu a ydynt yn bodloni'r 3 maen prawf hanfodol cyntaf ar gyfer cynllun parcio i breswylwyr yn unig newydd. Rhaid i geisiadau ddangos:

a) Bod yr ardal neu'r stryd yn breswyl ei chymeriad yn bennaf (mae mwy na 50% o'r eiddo yn eiddo preswyl).

b) Yn gyffredinol, nad oes gan yr eiddo yn y stryd(oedd) y mae'r cais yn berthnasol iddynt unrhyw gyfleusterau parcio oddi ar y stryd (rhaid i 20% neu lai o eiddo fod â manau parcio oddi ar y stryd).

c) Bod 50% o breswylwyr y stryd yn cytuno i osod y cynllun.

Os derbynnir ceisiadau heb ddigon o wybodaeth i ddangos eu bod yn bodloni'r 3 maen prawf hanfodol uchod, yna ni fyddant yn cael eu hystyried. Er enghraifft, byddai angen tystiolaeth gyda'r cais i ddangos cytundeb mwy na 50% o breswylwyr y stryd, er enghraifft deiseb preswylwyr wedi'i llofnodi.

Os derbynnir ceisiadau nad ydynt yn bodloni'r 3 maen prawf hanfodol uchod, yna ni fyddant yn cael eu hasesu ymhellach. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod os na eir â'u cais ymlaen ac mae'r penderfyniad hwnnw'n derfynol.

Os bydd cais yn bodloni'r meini prawf hanfodol, yna bydd yn symud ymlaen i'r cam nesaf os oes arian ar gael i weithredu mesurau os yw'r stryd yn gymwys. Bydd ceisiadau am gynlluniau parcio i breswylwyr yn unig yn cael eu cadw ar ffeil i'w hasesu a'u hystyried pan fydd arian wedi'i nodi.

### 2.2 Meini prawf ar gyfer asesiad llawn o gynllun parcio preswylwyr

Bydd ceisiadau am gynlluniau parcio newydd i breswylwyr yn unig sy'n bodloni'r 3 maen prawf hanfodol uchod ac y mae arian wedi'i nodi ar eu cyfer, wedyn yn cael eu hasesu gydag arolygon capasiti parcio (ar wahanol adegau ac ar wahanol ddyddiau), yn seiliedig ar y meini prawf a'r telerau canlynol:

- d) Rhaid dangos bod 80% o'r manau parcio sydd ar gael yn cael eu defnyddio gan bob cerbyd yn ystod cyfnod arfaethedig y Gorchymyn.
- e) Caiff hyd at 50% o ofod y ffordd ei ddyrannu i ddeiliaid trwyddedau, ac eithrio o fewn Canol y Ddinas lle y bydd angen rheoli'r holl fannau parcio yn unol â'r strategaeth parcio.
- f) Fel arfer bydd y cynllun yn gweithredu bob dydd rhwng 8am a 8pm o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ond gallai hyn amrywio yn y Gorchymyn Rheoli Traffig er mwyn mynd i'r afael â galwadau parcio penodol mewn ardal os bydd angen. Bydd yr amseroedd gweithredu arfaethedig yn cael eu pennu gan y Cyngor a'u cyfleu i breswylwyr yn ystod yr ymgynghoriad.
- g) Fel arfer, dylai Gorchymynion o'r fath fod yn rhan o strategaeth parcio ardal sy'n ystyried cerbydau sydd wedi'u dadleoli ac felly gall cynllun gwmpasu un stryd neu fwy nag un stryd.
- h) Bydd pob cynllun yn cael ei nodi ar wahân a bydd deiliaid trwyddedau yn cael eu heithrio yn eu 'parth' eu hunain yn unig.
- i) Bydd trwyddedau'n cael eu rhoi ar gais i berchnogion cerbydau preswyl yn unig, byddant yn berthnasol i gerbydau unigol, a bydd angen eu hadnewyddu'n flynyddol.
- j) Rhoddir trwyddedau dim ond i geisiadau sy'n bodloni amodau clir o ran cymhwyster. Yn gyffredinol, gellir rhoi 20% yn fwy o drwyddedau heb achosi unrhyw broblemau parcio.
- k) Mewn ardaloedd lle ceir cymysgedd o eiddo preswyl a busnesau bach, gellir ystyried rhoi trwyddedau parcio i fusnesau.
- l) Bydd preswylwyr sy'n manteisio ar y cynllun yn cyfrannu at gost gweithredu a rheoli'r cynllun, os bydd angen gwneud hynny. Amlinellir cost trwyddedau parcio preswylwyr yn adran 3 isod.

Byddwn yn cysylltu â phob ymgeisydd gyda chanlyniad ei gais ar ôl iddo gael ei asesu a bydd y penderfyniad yn derfynol.

Ar gyfer unrhyw geisiadau a gymeradwyir, bydd angen Gorchymyn Rheoli Traffig (GRhT) newydd ar gyfer cynllun parcio newydd i breswylwyr yn unig, sy'n newid yn gyfreithiol y defnydd o'r briffordd i gyfyngu manau parcio i breswylwyr sy'n arddangos trwydded ddilys rhwng oriau penodol.

Gall y broses o wneud GRhT newydd gymryd 6 i 12 mis i'w chwblhau ac ar ôl ei chadarnhau, bydd angen gosod arwyddion a marciau ffordd newydd cyn i gynllun fynd yn fyw.

Pan fydd yn fyw, bydd angen i'r holl breswylwyr sydd yn parcio yn y manau parcio i breswylwyr yn unig arddangos trwydded neu byddant mewn perygl o Gael Hysbysiad Tâl Cosb fel y nodir yn adran 5 isod.

Gall eiddo cymwys wneud cais am Drwydded Parcio Preswylwyr i'w galluogi i barcio mewn manau parcio i breswylwyr yn unig, yn eu 'parth' a nodwyd. Bydd yr eiddo sy'n gymwys yn cael ei nodi pan gaiff y cynllun ei gynllunio a dim ond yr eiddo hyn sy'n gymwys i dderbyn trwydded, ar yr amod eu bod yn bodloni'r amodau isod.

### 3. Trwyddedau Parcio Preswylwyr

#### 3.1 Trwyddedau Preswylwyr

Gall preswylwyr eiddo cymwys wneud cais am uchafswm o ddwy Drwydded Parcio Preswylwyr fesul eiddo yn eu parth Parcio Trwydded Preswylwyr. Mewn parthau lle nodwyd bod capasiti parcio ar y stryd yn bryder penodol, dim ond un Drwydded Parcio Preswylwyr fesul eiddo a ganiateir.

Dylid ystyried y diffiniadau a'r arweiniad canlynol yn rhan o gynllun parcio i breswylwyr yn unig:

- Ystyrir preswilydd yn unrhyw berson sy'n byw mewn eiddo o fewn y cynllun diffiniedig a ddylai fod wedi'i gofrestru yn y cofrestrau Treth Gyngor.
- Diffinnir eiddo'n eiddo domestig a restrir dan ddiffiniadau'r Dreth Gyngor. Ystyrir mai eiddo sengl yw tŷ amlfeddiannaeth y caiff y dreth gyngor ei dalu ar gyfer y tŷ cyfan hwnnw. Pan fo eiddo'n dŷ amlfeddiannaeth (er enghraifft, tŷ a rennir neu ystafelloedd a rentir yn unigol) ond bod ganddo un cyfrif Treth Gyngor yn unig, yna bydd y trwyddedau'n cael eu rhoi ar sail y cyntaf i'r felin.

Nid yw cael trwydded yn gwarantu y bydd man parcio ar gael.

Bydd angen talu am drwyddedau preswylwyr a'u hadnewyddu'n flynyddol.

Dim ond i gerbyd dynodedig a nodir gan Farc Cofrestru Cerbyd (MCC) y rhoddir trwyddedau.

Dim ond i breswylwyr y mae eu man preswyllo arferol o fewn ardal cynllun parcio preswylwyr cyfredol ac y mae'r cerbyd(au) sy'n eiddo iddynt neu a gedwir ganddynt wedi'u cofrestru yn y cyfeiriad hwnnw y rhoddir trwyddedau.

Dim ond yn y parth a nodir ar y drwydded/y llythyr sy'n cadarnhau'r drwydded y gellir defnyddio Trwyddedau Parcio Preswylwyr.

Ni chaniateir i landlordiaid na pherchenogion yr eiddo wneud cais am drwydded oni bai eu bod yn byw yn yr eiddo y mae'r cais wedi'i wneud ar ei gyfer.

Bydd angen i breswylwyr sy'n gwneud cais am drwydded:-

- Gyflwyno prawf o breswyllo (mae prawf derbyniol yn cynnwys bil y dreth gyngor neu fil trydan/nwy/dŵr, neu gynnig morgais neu gytundeb tenantiaeth wedi'i ddyddio o fewn 3 mis i ddyddiad y cais)
- Cyflwyno prawf o berchenogaeth cerbyd (llyfr log V5 neu ddogfennau yswiriant llawn sy'n dangos bod y cerbyd wedi'i gofrestru yn y cyfeiriad fydd yn gysylltiedig â'r drwydded rydych yn gwneud cais amdani)
- Talu'r ffi archebu.

Caiff ceisiadau am drwydded parcio preswylwyr eu hoedi os cyflwynir ceisiadau heb y dystiolaeth gywir.

Caiff trwyddedau eu hadnewyddu'n flynyddol a byddant yn ddilys am 12 mis. Caiff y drwydded ei rhoi a'i hadnewyddu ar gais unigolyn a thrwy ffurflenni cais priodol.

Os yw cerbyd wedi'i brynu'n ddiweddar, bydd dogfennau yswiriant llawn sy'n cadarnhau bod y cerbyd wedi'i gofrestru yn y cyfeiriad fydd yn gysylltiedig â'r drwydded rydych yn gwneud cais amdani yn cael eu derbyn yn dystiolaeth yn hytrach na llyfr log V5.

Mae preswylwyr yn dal yn gymwys i wneud cais am drwyddedau parcio preswylwyr ar gyfer cerbyd cwmni. Yn ogystal â'r dystiolaeth sydd ei hangen i brofi cyfeiriad, bydd angen llythyr gan y cyflogwr ar bapur â phennawd yn cadarnhau mai dim ond y preswilydd fydd yn defnyddio'r cerbyd dan sylw ac y caiff y cerbyd ei storio dros nos yng nghyfeiriad cartref y preswilydd. Rhaid i'r llythyr gynnwys enw llawn, cyfeiriad a rhif cofrestru cerbyd y preswilydd a rhaid ei ddyddio o fewn 3 mis i'r cais.

Pan fydd car ar log neu gar cwrteisi yn cymryd lle cerbyd presennol, gellir rhoi trwydded dros dro am gyfnod cyfyngedig hyd at uchafswm o 1 mis.

Trwydded parcio rithwir neu ysgrifenedig fydd trwydded a bydd y drwydded yn cynnwys y manylion sydd eu hangen gan y Cyngor.

Rhaid i breswylwyr arddangos trwydded ddilys yn eu cerbyd wrth barcio mewn man parcio i breswylwyr. Nes y caiff trwydded ei derbyn/y caiff trwydded rithwir ei hactifadu, ni chaniateir i breswylwyr barcio mewn man parcio i breswylwyr yn unig.

Ni fydd angen trwydded ar gyfer cerbydau sy'n cyflawni dyletswyddau hanfodol a phwerau statudol, gan gynnwys cerbydau'r gwasanaethau brys tra'n mynd i argyfwng, ceir priodas a hersiau ffurfiol a cherbydau ymgwymerwyr statudol, casglu/dosbarthu post a busnes y cyngor/llywodraeth. Yn ogystal, ni fydd angen trwyddedau ar gyfer cerbydau sy'n llwytho/dadlwytho nwyddau neu gerbydau y mae teithwyr yn mynd i mewn iddynt neu'n eu gadael.

Dim ond i geir, beiciau modur a faniau â phwysau gweili o lai na 1524 kg (30 cwt) y rhoddir trwyddedau. Bydd angen i breswylwyr gyflwyno'r Ddogfen Cofrestru Cerbydau (V5C) os ydynt yn gwneud cais am fan fel y gellir gwirio'r pwysau gweili. Cyfrifoldeb y preswilydd yw sicrhau bod trwydded ddilys yn cael ei harddangos bob amser os yw'n parcio beic modur mewn man parcio i breswylwyr yn unig neu fod trwydded rithwir ddilys wedi'i actifadu.

Ni roddir trwyddedau unigol ar gyfer carafanau neu ôl-gerbydau, er y gellir parcio'r rhain o fewn cynllun ar sail fyrdymor wrth lwytho/dadlwytho ar yr amod eu bod yn cael eu cysylltu â cherbyd sy'n arddangos trwydded ddilys.

Wrth barcio cerbyd mewn man parcio i breswylwyr yn unig, ni ddylid ei ddefnyddio i werthu na llogi unrhyw wasanaeth.

Rhaid arddangos pob trwydded ar wyneb mewnol y ffenestr flaen, neu leoliad addas arall ar gyfer beic modur, fel bod y manylion i'w gweld yn glir.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i derfynu trwyddedau a gaiff eu defnyddio'n dwyllodrus neu'n amhriodol, heb ad-dalu unrhyw gostau.

Mae'n drosedd ffugio neu feddu ar drwydded wedi'i ffugio neu wneud datganiad ffug i gael trwydded.

Mae trwyddedau newydd ar gael os newidir cerbyd neu os caiff trwydded ei cholli/ei difrodi ond bydd angen talu amdanynt.

Bydd trwyddedau'n cael eu dychwelyd i'r Cyngor/bydd trwyddedau rhithwir yn cael eu canslo pan na fydd y deiliad yn berchennog ar y cerbyd perthnasol mwyach neu pan nad yw'n byw yn y cyfeiriad y mae'r drwydded yn gysylltiedig ag ef mwyach.

Os bydd preswilydd newydd yn gwneud cais am drwydded mewn eiddo sydd eisoes â'r uchafswm o drwyddedau a roddir, dim ond os cyflwynir tystiolaeth yn cadarnhau newid preswilydd ar gofnodion y Dreth Gyngor y caiff yr hen drwyddedau eu canslo. O ran Tai Amlfeddiannaeth, rhaid i'r landlord gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig yn cadarnhau newid preswilydd.

Ni ellir trosglwyddo trwyddedau ac ni cheir ad-daliadau (er enghraifft os byddwch yn symud cyfeiriad)

Mae telerau ac amodau llawn ar gyfer trwyddedau preswylwyr ar gael ar wefan y cyngor.

Gellir amrywio'r telerau ac amodau hyn o bryd i'w gilydd, ond bydd unrhyw breswilydd sy'n gwneud cais am drwydded yn cael esboniad clir o'r telerau ac amodau presennol sy'n berthnasol i'r drwydded yr adeg honno.

### 3.2 Trwydded Ymwelwyr

Gall preswylwyr sy'n byw mewn ardal cynllun parcio i breswylwyr yn unig brynu trwyddedau parcio ymwelwyr, sy'n galluogi eu hymwelwyr i barcio eu

cerbydau mewn man parcio preswylwyr â marciau arno o fewn eu cynllun ar y dyddiad y mae'r drwydded ymwelwyr yn ddilys arno. Nid oes angen i breswylwyr fod yn ddeiliaid trwydded preswylwyr ddilys na bod yn berchen ar gerbyd i wneud cais am drwyddedau parcio ymwelwyr.

Bydd angen i breswylwyr sy'n gwneud cais am drwydded(au) parcio ymwelwyr roi prawf o breswylwyr drwy gyflwyno naill ai bil y dreth gyngor neu fil trydan/mwy/dŵr, neu gynnig morgais neu gytundeb tenantiaeth dyddiedig o fewn 3 mis i ddyddiad y cais.

Mae modd prynu trwyddedau ar gyfer ffrindiau a perthnasau sy'n ymweld a gellir prynu hyd at 30 o drwyddedau parcio diwrnod i ymwelwyr y flwyddyn fesul eiddo. Caiff hanes prynu preswylwyr ei wirio cyn prosesu ceisiadau am drwyddedau newydd.

Ni all preswylwyr brynu mwy o drwyddedau parcio ymwelwyr os yw'r uchafswm o 30 wedi'u rhoi, ni waeth swm y trwyddedau a roddir i eiddo eraill yn y parth.

Trwydded parcio rithwir neu ysgrifenedig fydd trwydded a bydd y drwydded yn cynnwys y manylion sydd eu hangen gan y Cyngor.

Rhaid arddangos pob trwydded ar wyneb mewnol y ffenestr flaen, neu leoliad addas arall ar gyfer beic modur, fel bod y manylion i'w gweld yn glir.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i derfynu trwyddedau a gaiff eu defnyddio'n dwyllodrus neu'n amhriodol, heb ad-dalu unrhyw gostau.

Mae'n drosedd ffugio neu feddu ar drwydded wedi'i ffugio neu wneud datganiad ffug i gael trwydded.

Caiff ceisiadau am drwydded(au) parcio ymwelwyr eu hoedi os cyflwynir ceisiadau heb y dystiolaeth gywir.

Ni ellir ad-dalu ffioedd trwyddedau parcio ymwelwyr ac ni roddir trwyddedau newydd ar gyfer rhai a gollwyd. Dim ond hyd at uchafswm o 30 o drwyddedau parcio ymwelwyr newydd y gellir eu rhoi fesul eiddo, y codir yr un tâl am bob un.

Wrth barcio cerbyd mewn man parcio i breswylwyr yn unig, ni ddylid ei ddefnyddio i werthu na llogi unrhyw wasanaeth.

Mae telerau ac amodau llawn ar gyfer trwyddedau ymwelwyr ar gael ar wefan y Cyngor.

Gellir amrywio'r telerau ac amodau hyn o bryd i'w gilydd, ond bydd unrhyw breswilydd sy'n gwneud cais am drwydded yn cael esboniad clir o'r telerau ac amodau presennol sy'n berthnasol i'r drwydded yr adeg honno.

### 3.3 Trwyddedau Gofalwyr

Caiff pobl sy'n ymweld i fodloni anghenion iechyd a gofal preswylwyr fynediad dan y cynlluniau. Gall y preswylwyr hynny sy'n byw mewn parth parcio i breswylwyr yn unig wneud cais am drwydded parcio gofalwyr ar gyfer teulu neu weithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r eiddo i roi gofal.

Bydd angen tystiolaeth o fudd-dal sy'n gysylltiedig â gofal fel Lwfans Gofalwr neu Lwfans Gweini. Pan na fydd hyn yn bosibl, gellir cyflwyno nodyn meddyg yn cadarnhau'r angen am ofal.

Dim ond i gerbyd dynodedig a nodir gan Farc Cofrestru Cerbyd (MCC) y rhoddir Trwyddedau Gofalwyr.

Trwydded parcio rithwir neu ysgrifenedig fydd trwydded a bydd y drwydded yn cynnwys y manylion sydd eu hangen gan y Cyngor.

Dim ond yn y parth a nodir ar y drwydded/y llythyr sy'n cadarnhau'r drwydded y gellir defnyddio Trwyddedau Gofalwyr.

Bydd dal angen i breswylwyr sy'n gwneud cais am drwydded gofalwr brofi eu bod yn byw yn y cyfeiriad yn yr ardal parcio i breswylwyr yn unig drwy gyflwyno bil treth gyngor ar gyfer y flwyddyn gyfredol, bil trydan/nwy/dŵr dyddiedig o fewn y 3 mis diwethaf, cytundeb tenantiaeth, datganiad morgais, cyfriflen banc, dogfennau yswiriant neu drwydded yrru.

Dylai preswylwyr gadarnhau enw eu gofalwr enwebedig a'r Marc Cofrestru Cerbyd ar gyfer y drwydded. Bydd angen i'r gofalwr gyflwyno tystiolaeth yn dangos ei fod yn berchen ar y cerbyd, naill ai drwy lyfr log V5, neu ddogfennau yswiriant sy'n dangos enw'r gofalwr enwebedig.

Os yw preswlydd yn derbyn gofal gan fwy nag un ffynhonnell, gellir rhoi trwydded gofalwr sy'n gysylltiedig â'r cyfeiriad yn hytrach nag â cherbyd penodol fel eithriad. Dim ond pan nad yw trwydded gofalwr enwebedig yn briodol gan fod mwy nag un person yn mynychu'r eiddo i gefnogi anghenion gofal neu feddygol y mae'r drwydded hon ar gael.

Yn yr achosion hyn, mae angen i ymarferwyr meddygol y preswlydd gefnogi ceisiadau am drwyddedau drwy gyflwyno llythyr gan y Feddygfa/Bwrdd Iechyd yn cadarnhau bod gofal yn cael ei roi gan nifer o weithwyr proffesiynol fel Meddygon, Nyrsys Ardal, Nyrsys Iechyd Cymunedol, Bydwagedd, Cynorthwyr Gofal Cartref, a/neu Ymwelwyr Iechyd. Os rhoddir gofal gan sefydliad masnachol neu elusennol neu os yw wedi'i drefnu heb gymorth gan y Feddygfa/Bwrdd Iechyd, bydd angen llythyr gan y sefydliad gofal ar bapur swyddogol yn cadarnhau bod nifer o staff yn rhoi gofal cartref yn y cyfeiriad.

Caiff Trwyddedau Parcio Gofalwyr eu rhoi yn rhad ac am ddim. Gellir rhoi uchafswm o 1 drwydded gofalwr fesul eiddo.

Bydd trwyddedau Gofalwyr yn cael eu hadnewyddu'n flynyddol a byddant yn effeithiol am 12 mis. Caiff y drwydded ei rhoi a'i hadnewyddu ar gais unigolyn a thrwy ffurflenni cais priodol.



Rhaid arddangos pob trwydded ar wyneb mewnol y ffenestr flaen fel bod y manylion i'w gweld yn glir.

Wrth barcio cerbyd mewn man parcio i breswylwyr yn unig, ni ddylid ei ddefnyddio i werthu na llogi unrhyw wasanaeth.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i derfynu trwyddedau a gaiff eu defnyddio'n dwyllodrus neu'n amhriodol, heb ad-dalu unrhyw gostau.

Mae'n drosedd ffugio neu feddu ar drwydded wedi'i ffugio neu wneud datganiad ffug i gael trwydded.

Ni ellir trosglwyddo trwyddedau (er enghraifft os byddwch yn symud cyfeiriad)

Bydd trwyddedau'n cael eu dychwelyd i'r Cyngor/bydd trwyddedau rhithwir yn cael eu canslo pan na fydd y deiliad yn berchennog ar y cerbyd perthnasol mwyach neu pan nad yw'n byw yn y cyfeiriad y mae'r drwydded yn gysylltiedig ag ef mwyach.

Caiff ceisiadau am drwyddedau parcio gofalwyr eu hoedi os cyflwynir ceisiadau heb y dystiolaeth gywir.

Mae telerau ac amodau llawn ar gyfer trwyddedau gofalwyr ar gael ar wefan y Cyngor.

Gellir amrywio'r telerau ac amodau hyn o bryd i'w gilydd, ond bydd unrhyw breswilydd sy'n gwneud cais am drwydded yn cael esboniad clir o'r telerau ac amodau presennol sy'n berthnasol i'r drwydded yr adeg honno.

- 3.4 Caniateir i ddeiliaid Bathodynau Glas barcio yn y manau parcio i breswylwyr yn unig am hyd at dair awr gyda bathodyn glas wedi'i arddangos yn gywir a'u disg "cloc" wedi'i arddangos.

#### 4. Terfynu Cynlluniau Parcio Preswylwyr

- 4.1 Bydd ceisiadau i derfynu cynlluniau parcio preswylwyr yn cael eu hystyried ar ôl derbyn cais sy'n cadarnhau bod mwy na 50% o breswylwyr sy'n byw mewn eiddo cymwys yn ardal y cynllun hwnnw yn cytuno i derfynu'r cynllun.

Rhaid i geisiadau hefyd nodi'r newid mewn amgylchiadau sy'n golygu nad yw cynllun parcio i breswylwyr yn unig yn briodol mwyach h.y. adleoli busnesau lleol gan ddileu'r angen am fannau parcio i breswylwyr yn unig yn yr ardal.

Bydd terfynu cynllun parcio i breswylwyr yn unig a'r effaith ar gynlluniau parcio cyfagos yn cael eu hystyried a dim ond os na fydd effaith negyddol a bod arian ar gael y caiff cynllun ei derfynu.

#### 5. Camau Gorfodi

- 5.1 Ni fydd trwydded barcio ar unrhyw adeg yn difeio deiliad y drwydded rhag parcio'n gyfreithlon, heb ofal priodol a heb achosi rhwystr. Ni fydd y Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw gerbyd nac unrhyw gynnwys cerbyd a ddifrodir, a ddygir neu a gollir tra bod y cerbyd wedi'i barcio mewn parth parcio i breswylwyr yn unig. Bydd cerbydau sy'n parcio mewn parthau parcio i breswylwyr yn unig, a weithredir dan weithdrefnau Gorfodi Parcio Sifil, heb fod â thrwydded rithwir ddilys neu heb arddangos trwydded bapur ddilys yn cael Hysbysiad Tâl Cosb, a orfodir trwy'r prosesau a'r pwerau Gorfodi Parcio Sifil, a dilynir y gweithdrefnau cymeradwy arferol.